

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL  
COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD 11/04/2022 am 7pm YNG  
NGHANOLFAN YR HENOED / MINUTES OF MEETING HELD ON  
11/04/2022 at 7pm AT THE PENSIONERS' HALL**

<b>PRESENNOL:</b> Cadeirydd Mrs E. Jones, Is-gadeirydd Mrs S Jones, Mrs C. Parry, Ms M E Evans, Mrs A Williams, Mrs C Summers a'r Cyngorydd Bob Parry.	<b>PRESENT:</b> Chairman Mrs E. Jones, Vice-chairman Mrs S Jones, Mrs C. Parry, Ms M E Evans, Mrs A Williams, Mrs C Summers and Councillor Bob Parry.
<b>1. Croeso ac ymddiheuriadau.</b> Croesawydd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod - y cyfarfod olaf o'r Cyngor hwn cyn yr etholiad.	<b>1. Welcome and apologies</b> The Chairman welcomed all to the meeting – the last meeting for this Council before the election..
<b>2. Datganiadau Diddordeb.</b> .Cafwyd tri - Edna Jones, Ann Williams, Bob Parry - dan eitem 5(f) - y tri ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol y Ffridd. Ni fu rhaid iddynt adael y cyfarfod ond ni chymerodd yr un o'r tri ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad.	<b>2. Declarations of Interest.</b> There were three - Edna Jones, Ann Williams, Bob Parry - under item 5(f) - the three are members of the Board of Governors Ysgol Y Ffridd. They didn't have to leave the meeting, but none of them took part in the discussion or the decision.
<b>3. Cadarnhau cofnodion 07/03/2022 a 14/3/2022.</b> Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y ddu gyfarfod yn gofnodion cywir.	<b>3. Ratify minutes 07/03/2022 and 14/3/2022.</b> Both minutes were ratified and accepted as a true record of both meetings.
<b>4. Materion yn codi:</b>	<b>4. Matters arising:</b>
<b>(i) Cwyn dwr yn gorlifo o'r twll archwilio rhwng Bragdy a New Haven.</b> Derbyniwyd ymateb o'r Cyngor Sir yn cadarnhau eu bod yn gwybod am y broblem ond bod angen gwneud mwy o ymchwiliadau cyn dod i benderfyniad ynglŷn â'r ffordd ymlaen i ddatrys y broblem. Gofynnwyd i'r Cyngorydd Bob Parry ofyn i'r Cyngor Sir ynteu dwr glan neu ddŵr budur oedd yn gorlifo.	<b>(i) Complaint re water overflowing from the manhole between Bragdy and New Haven.</b> Response received from the County Council confirming that they are aware of the problem but further investigations need to be made in order to resolve the problem. Councillor Bob Parry was requested to find out from the County Council whether it was clean or dirty water that was overflowing.
<b>(ii) Dathliadau Jiwbilf Platinwm y Frenhines.</b> Yn dilyn y cyfarfod arbennig a gynhalwyd ar y 14/3/2022 rhwng aelod o'r Hwb Cymunedol a'r Cyngor hwn, ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth bellach oddi wrth yr Hwb Cymunedol ynglŷn â'u cynlluniau ar gyfer y dathliadau felly ni ellir gwneud unrhyw benderfyniad ar swm cyfraniad gan y Cyngor Cymuned.	<b>(ii) Queen's Platinum Jubilee Celebrations.</b> Following the special meeting held on the 14/3/2022 between one member of the Community Hub and Community Council, no further information has been received from the Hub Chub regarding their plans for the celebrations, therefore no decision can be made as to the amount of the contribution from the Community Council.

<p>.</p> <p><b>(iii) Diffib.</b> Yn dilyn i'r diffib. gael ei ddwyn i'r dafarn, galwodd y Clerc ar Wasanaeth Ambiwlans Cymru i wirio statws y diffib er mwyn sicrhau ei fod yn barod i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Derbyniwyd cyngor fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) Angen cynnwys yn y Rheolau Sefydlog bod hawl i'r Clerc wario hyd at £500.00 ar y dffib heb ganiatâd cyngor llawn;</li> <li>(b) Angen clustnodi arian ar gyfer newid padiau'r diffib petai'n cael ei ddefnyddio.</li> <li>(c) Bateri yn para tan 2026. Cost rhai newydd yn £400 - £600 a rhaid eu prynu gan Calon Cymru.</li> <li>(d) Rhaid taro golwg dros y diffib bob 3 mis i sicrhau bod popeth yn ei le.</li> </ul> <p><b>(iv) Archwilydd Mewnol.</b> Mr Alun Foulkes wedi derbyn y gwaith ar yr un ffi a'r llynedd sef £100, ac wedi arwyddo'r contract.</p> <p><b>(v) Contract cyflogaeth y Clerc.</b> Trafodwyd a chadarnhawyd y contract yn unol â'r Contract ddrfft a anfonwyd i'r Cyngorwyr cyn y cyfarfod hwn.. Y Clerc i anfon copi o'r Contract at Mr Graham Owen i'w harwyddo.</p>	<p><b>(ii) Defib.</b> Following the defib being taken to the pub, the Clerk called on the Wales Ambulance Service to check the status of the defib in order to ensure that it was ready for use in the future. Advised was received as follows:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) Need to insert into the Standing Orders that the Clerk be allowed to spend up to £500 on the defib without the consent of the full Council;</li> <li>(b) Need to earmark monies for renewing the defib pads after each use.</li> <li>(c) Battery will last until 2026. Cost of new battery between £400 - £600 and it must be purchased from Welsh Hearts.</li> <li>(d) Defib needs checking every 3 months to ensure its readiness for use.</li> </ul> <p><b>(iv) Internal Auditor.</b> Mr Alun Foulkes has accepted the post at the same fee as last year i.e. £100, and has signed the contract.</p> <p><b>(v) Clerk's Contract of employment.</b> The contract was discussed and was accepted as per draft sent out to Councillors prior to this meeting. The Clerk to forward a copy to Mr Graham Owen to sign.</p>
<p><b>5. Gohebiaeth:</b></p> <p><b>(a) Cyngor Sir Ynys Môn.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) Ymateb i gais a dderbyniwyd gan etholwr ar yr 28/3/2022 ynglŷn â chael arhosfa bws dros y ffordd i Llain Delyn. Y Clerc wedi anfon y cais ymlaen at Adran Brifffyrdd y Cyngor Sir ac wedi derbyn ymateb yn cadarnhau y bydd swyddogion perthnasol yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gael arhosfa bws.</li> <li>(ii) Adroddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn ar Gofrestrau Diddordebau Cynghorau Tref a Chymuned. Anfonodd y Clerc gopi o'r adroddiad at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod er mwyn rhoi digon o amser iddynt roi ystyriaeth briodol i'r cynnwys cyn ei drafod yn y</li> </ul>	<p><b>5. Correspondence:</b></p> <p><b>(a) Isle of Anglesey County Council.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) Response to a request received from a elector on the 28/3/2022 regarding getting a bus stop opposite Llain Delyn. The Clerk had forwarded the request to the Highways Department in the County Council and had received a response confirming that the relevant officers will look into the possibility of siting a bus stop as requested.</li> <li>(ii) Isle of Anglesey County Council's Standards Committee report on Town and Community Councils' Register of Members' Interests. The Clerk had forwarded a copy of the report to the Councillors before the meeting in order to give them sufficient time to give due</li> </ul>

<p>Cyngor. Trafodwyd yr adroddiad, a da oedd gweld wrth ddarllen yr adroddiad bod y Cyngor hwn yn cydymffurfio a'r gofynion.</p>	<p>consideration to the content before discussing it in the Council. On reading the report it was good to know that this Council complied with the requirements.</p>
<p>(iii) Pwyllgor Safonau. Cwynion am Ymddygiad i Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Adroddiadau'r Pwyllgor Safonau. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.</p>	<p>iii) Standards Committee. Complaints to the Public Services Ombudsman for Wales regarding Behaviour – Standards' Committee's Reports. Discussed and accepted for information.</p>
<p><b>(b) Un Llais Cymru</b></p> <p>(i) Bwletin Newyddion yn cynnwys gwybodaeth bwysig. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.</p>	<p><b>(b) One Voice Wales.</b></p> <p>(i) News Bulletin containing important information. Discussed and accepted for information.</p>
<p>(ii) Rheoliadau Cydbwylgorau Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2)(Cymru) 2022. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.</p>	<p>(ii) Corporate Joint Committee (General)(No.2)(Wales) Regulations 2022. Discussed and accepted for information.</p>
<p>(iii) Rydym ni eisiau helpu eich cymuned. Cynllun Llywodraeth Cymru – Fy nghoeden, Ein Coedwig. Holi a oedd tir ar goed ar gyfer plannu coed. Trafodwyd a chan nad oedd tir ar gael, derbyniwyd er gwybodaeth.</p>	<p>(iii) We want to help your community. Welsh Government's Scheme – My tree, Our Forest. Seeking land for planting trees. Matter discussed, and as there was no land available, accepted for information.</p>
<p><b>(c) Ieuan Wyn.</b></p> <p>(i) Gwarchod enwau lleoedd Cymraeg. Gofyn i'r Cyngor Cymuned ysgrifennu at Jeremy Miles, AS, Gweinidog y Gymraeg, Llywodraeth Cymru gyda chopi at Siân Gwenllian AS, yr Aelod Dynodedig sy'n arwain ar foni tro'r Cytundeb Cydweithio ar ran Plaid Cymru, yn gofyn am ddeddfwriaeth i rwystro disodli enwau lleoedd tirweddol Cymraeg ac enwau tai Cymraeg gan enwau Saesneg. Trafodwyd, a phenderfynwyd i'r Clerc anfon llythyr at y Gweinidog a chopi at Siân Gwenllian yn gofyn am roi deddfwriaeth ar waith cyn gynted â phosibl.</p>	<p><b>(c) Ieuan Wyn.</b></p> <p>(i) Protecting Welsh location names. A request that the Community Council write to Jeremy Miles AM, Welsh Goverment's Minister for the Welsh Language, with a copy to Siân Gwenllian AM,, the Designated Member who leads on monitoring the Co-operation Agreement on behalf of Plaid Cymru,, requesting that there be legislation to prevent the replacing of Welsh names of landscapes and houses by English names. Matter discussed and it was decided that the Clerk send a letter to the Minister and a copy to Siân Gwenllian requesting that legislation be put in operation as soon as possible.</p>
<p><b>(d) Brian Vevers, Cadeirydd Pwyllgor Cae Chwarae Plant.</b></p> <p>(i) Eisiau ymestyn prydles y Cae Chwarae Plant am gyfnod o oleiaf</p>	<p><b>(d) Brian Vevers, Chairman Children's Playing Field Committee.</b></p> <p>(i) Requesting extension of the lease for a period of at least 20 years. The matter</p>

<p>mlynedd. Trafodwyd y mater a chan fod hwn yn fater pwysig ag oblygiadau i'r dyfodol iddo, penderfynwyd gadael y mater tan y cyfarfod nesaf pan fydd Cyngor a Chyngorwyr newydd wedi'u hethol.</p>	<p>was discussed and as this is an important matter with implications for the future, it was decided to leave the matter until the next meeting when a new Council and new Councillors will have been elected.</p>
<p><b>(e) Yswiriant Zurich.</b> Gwybodaeth bod yr yswiriant presennol yn rhoi sicrwydd yswiriant ar gyfer gweithgareddau pan fydd hyd at 500 o bobl yn bresennol, hynny yn ddibynnol ar gario allan asesiad risg priodol. Pe byddai mwy na 500 yn bresennol, bydd rhaid cysylltu â'r cwmni i drefnu sicrwydd yswiriant priodol.</p>	<p><b>(e) Zurich Insurance.</b> Advising that providing that the appropriate risk assessment is carried out, the current insurance provides cover for events where no more than 500 people attend. Where more than 500 people attend, the company must be contacted in order to arrange appropriate cover.</p>
<p><b>(f) Ysgol y Ffridd.</b> Cais am gyfraniad tuag at ymweliad i Lundain. Trafodwyd y cais, a daethpwyd i'r penderfyniad, gan fod yr ymweliad yn un addysgol, ac yn digwydd ym mis Mehefin, yr un mis a'r Jiwbilî, y dylid cyfrannu at y mater hwn allan o'r arian a glustnodwyd ar gyfer dathliadau Jiwbilî. Penderfynwyd rhoi cyfraniad o £1000.00 tuag at gostau trêñ y disgyblion. Cadarnhaodd y Clerk y byddai digon o weddill yn yr arian a glustnodwyd ar gyfer dathliadau'r Jiwbili petai'r Hwb Cymunedol yn dod yn ôl at y Cyngor Cymuned gyda'u cynlluniau.</p>	<p><b>(f) Ysgol y Ffridd.</b> Request for donation towards a trip to London. The matter was discussed, and the Council decided that as the trip was an educational trip, and due to take place in June, the same month as the Jubilee, that a contribution should be made out of the monies earmarked for the Jubilee celebrations. It was decided to donate £1000.00 towards the cost of the pupil's train fare. The Clerk confirmed that there would be sufficient surplus in the monies earmarked for Jubilee celebrations should the Community Hub come back to the Community Council with their plans.</p>
<p><b>(g) Elusen Kids Cancer.</b> Cais am gyfraniad. Penderfynu peidio cyfrannu.</p>	<p><b>(g) Kids Cancer Charity.</b> Request for donation. Decided not to donate.</p>
<p><b>(h) Ysgrifenyddiaeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.</b> Cydnabod derbyn yr wybodaeth angenreidiol ar gyfer Cydnabyddiaeth Ariannol y Cynghorwyr yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22.</p>	<p><b>(h) Secretariat to the Independent Remuneration Panel for Wales.</b> Confirming receipt of the necessary information regarding Councillor's Remuneration for the financial year 2021/22.</p>
<p><b>6.. Materion ariannol</b></p>	<p><b>6.. Financial matters</b></p>
<p><b>(a) Taliadau'n ddyledus:</b></p>	<p><b>(a) Payments due:</b></p>
<p><b>(i) Cymen £176.40</b> cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod 14/03/2022. Y Clerk i dalu.</p>	<p><b>(i) Cymen £176.40</b> interpreting at meeting 14/03//2022. The Clerk to pay.</p>

<p><b>(b) Cyfrifon y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22.</b> Trafodwyd y dogfennau a rannwyd gan y Clerc ac fe'u derbyniwyd yn gywir. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith i gadw cyfrifon y Cyngor mor dda.</p> <p><b>(c) Archwilydd Cymru - Archwiliad Allanol.</b> Dogfennau i'w cwblhau a'u cymeradwyo gan y Cyngor Cymuned erbyn 30 Mehefin 2022 a'i dychwelyd i Archwilydd Cymru erbyn y 1 Awst 2022 fan hwyraf. Y Clerc wedi trefnu i fynd a'r dogfennau at yr Archwilydd mewnol cyn gynted â phosib ar ôl yr 11 Ebrill 2022 ar gyfer eu cymeradwyo yn y cyfarfod blynnyddol ar yr 18 Mai 2022.</p>	<p><b>(b) Council's accounts for the financial year 2021/22.</b> The statement of accounts provided by the Clerk were discussed and found to be correct. The Clerk was thanked for her work in keeping the Council's accounts in such good order.</p> <p><b>(c) Auditor for Wales – External Audit.</b> Forms to be completed and approved by the Community Council by 30 June 2022 and returned to the Auditor for Wales by, at the latest, the 1 August 2022. The Clerk has arranged to take the documents to the Internal Auditor as soon as possible after 11 April 2022 in order that they can be approved in the AGM on the 18 May 2022.</p>
<p><b>7. UNRHYW FATER ARALL</b></p> <p><b>(a) Etholiad 5 Mai 2022.</b> Cafwyd gwybod gan y Cyngor Sir bod pedwar wedi rhoi eu henwau ymlaen i wasanaethu ar y Cyngor Cymuned – Mrs Sharon Jones, Mrs Christina Summers., Ms Emma Louise Jones a Mr Dyfed Roberts. - a chan bod angen deg o Gynghorwyr ar y Cyngor, bod y pedwar wedi'u hethol yn ddiwrthwynebiad. Felly ni fydd etholiad ar gyfer Cynghorwyr Cymuned yn cael eu cynnal ar gyfer Trewalchmai. Gwaith y Cyngor newydd yn eu cyfarfod cyntaf fydd rhoi trefniadau ar waith ar gyfer cyfethol 6 o aelodau.</p> <p>Hwn oedd cyfarfod olaf y Cynghorwyr presennol, a'r cyfarfod olaf ond un i'r Cadeirydd gan y bydd yn ymddeol o'r Cyngor yn dilyn yr etholiad. Ei chyfarfod olaf fydd cyfarfod blynnyddol y Cyngor. Diolchwyd yn fawr iddi gan y Cynghorwyr oll am ei gwaith yn y Cyngor ac i'r pentref dros nifer o flynyddoedd. Dymunwyd yn dda iddi ar ei hymddeoliad. Hwn hefyd oedd cyfarfod olaf ond un y Clerc. Y cyfarfod blynnyddol fydd ei chyfarfod olaf hithau, pan fydd yr awenau yn cael eu</p>	<p><b>7. ANY OTHER MATTER</b></p> <p><b>(a) 5th May election 2022.</b> The Council was notified by the County Council that four people had put their names forward to serve on the Community Council - Mrs Sharon Jones, Mrs Christina Summers., Ms Emma Louise Jones and Mr Dyfed Roberts – and as the number required to serve on the Council is ten, the four had been elected unopposed. Therefore no election for Community Councillors will be held for Trewalchmai. It will be the new Council in its first meeting that will be responsible for the arrangements to co-opt six new members.</p> <p>This was the last meeting for the present Councillors, and the penultimate meeting for the Chairman as she will be retiring from the Council following the election. Her last meeting will be the Council's Annual General Meeting. All the Councillors thanked Mrs Jones for all her good work in the Council and for the village over a number of years. This also was the Clerk's penultimate meeting. The AGM will also be her last meeting when she will be transferring the reins over to Mr Graham Owen. The</p>

<p>trosglwyddo i Mr Graham Owen. Diolchwyd i Mrs Price am ei gwasanaeth ac fe dderbyniodd ddymuniadau da ac anrhegion gan y Cyngorwyr ar ei hymddeoliad..</p>	<p>Councillors thanked Mrs Price for her service and presented her with gifts and good wishes on her retirement.</p>
<p><b>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD, 2021/2022.</b> Roedd yn ofynnol eleni, am y tro cyntaf erioed, i Gadeiryddion Cynghorau Cymuned a Thref gyflwyno Adroddiad Blynyddol ran y Cyngor. Cafwyd adroddiad cyflawn a chanmoladwy iawn gan y Cadeirydd. Talwyd diolch i Mrs Edna Jones am yr adroddiad gan Mrs Catherine Parry ac fe'i hategwyd gan Mr Bob Parry ar ran yr aelodau i gyd. Gellir gweld yr adroddiad ar wefan y Cyngor Cymuned.</p>	<p><b>CHAIRMAN'S ANNUAL REPORT, 2021/2022.</b> For the first time ever, it was required that Town and Community Council Chairmen produce an Annual Report on behalf of the Council. A full and very laudable report was given to the Council by the Chairman. <b>Vote of thanks to the Chairman for the report was given by Mrs Catherine Parry and seconded on behalf of all the Councillors by Mr Bob Parry.</b> The Report can be seen on the Community Council's website.</p>
<p><b>8. Pennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.</b> Cynhelir y cyfarfod nesaf ar yr 18/5/2022 am 7pm yng Nghanolfan yr Henoed. Bydd hwn yn gyfarfod cyhoeddus blynyddol ac yn gyfarfod cyntaf yn dilyn yr etholiad.</p>	<p><b>8. Fix a date for the next meeting.</b> The next meeting will be held on 18/5/2022 at 7pm at the Pensioners' Hall. This will be the AGM and the first meeting following the election.</p>
<p><b>Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm.</b></p>	<p><b>The meeting concluded at 8.30pm.</b></p>